# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Nick Davies | **Adran Etholiadol:** | Uplands |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwy'n cynnal cymorthfeydd misol ym marchnad Uplands. Mae hwn yn ddigwyddiad cymunedol poblogaidd yr oeddwn i wedi helpu i'w sefydlu, felly mae fy mhresenoldeb yno'n sicrhau fy mod yn weladwy ac yn hygyrch (er bod modd cael cyfarfod preifat gyda mi ar gais). Rwy'n rhoi'r diweddaraf i breswylwyr am unrhyw weithgareddau neu fentrau'r cyngor drwy gyfryngau cymdeithasol.
Rwyf wedi cynrychioli buddiannau etholwyr mewn materion cynllunio, yn enwedig wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol gan ei fod yn effeithio ar nifer a dwysedd y tai amlfeddiannaeth, ac rwyf wedi mynd ati i geisio sicrhau bod preswylwyr yn ymwybodol o'r buddion i'r ward. Rwyf hefyd wedi cynrychioli buddiannau preswylwyr yn natblygiad arfaethedig Campws Townhill.
Cynrychiolais breswylwyr mewn ymgyrch i atal tafarn gadwyn rhag cael trwydded hwyr yn Uplands.
Rwy'n cwrdd yn rheolaidd â'r heddlu a masnachwyr a thafarnwyr trwyddedig Uplands i drafod materion sydd o bryder i'r gymuned megis trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Fi yw'r Cynghorydd Hyrwyddol ar gyfer cludiant cynaliadwy (unrhyw ddull cludiant heblaw am geir preifat) ac rwy'n cwrdd yn aml â chyrff beicio a'r prif weithredwr bysus.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddogion y cyngor a'r grŵp eirioli beicio, Wheelrights, i ehangu'r rhwydwaith beicio ar draws y ddinas ac yn arbennig i Uplands.
Rwyf wrthi'n edrych am ffyrdd o wella'r strydlun yn Uplands, yn arbennig er mwyn ei wneud yn lle mwy diogel i gerddwyr a beicwyr.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae Uplands yn gymuned fywiog a chymysg iawn. Mae poblogaeth fawr o fyfyrwyr yn cydfodoli â phreswylwyr tymor hir. Mae'n lle poblogaidd i gymdeithasu ond mae hefyd yn ardal breswyl. Gall y cydfodoli hyn rhwng y gwahanol rannau o'r gymuned fod yn heriol ar brydiau, ond fel cynrychiolydd lleol, rwy'n gwneud fy ngorau glas i gynrychioli'r gymuned gyfan, pwy bynnag y bônt, fel bod Uplands yn lle sy'n addas i bawb.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,600

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22/06/2019 |